# Llais Gwent

**I bensiynwyr sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)**

**Gaef 2020**

## Gair o Groeso gan y Rheolwr Pensiynau

Ar fy rhan i a'r adran bensiwn, hoffwn eich croesawu i'ch rhifyn Gaeaf 2020 o Lais Gwent, ein cylchlythyr i bensiynwr sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).

Gobeithio eich bod oll yn cadw'n diogel ac yn iach.

Ymddeolodd Graeme Russell, Pennaeth Pensiynau ar 30ain Mehefin 2020 ac mae nawr, gobeithio, yn mwynhau ymddeoliad haeddiannol. Hoffwn ddiolch i Graeme ar ran yr adran bensiynau, am ei holl waith caled a'i ymroddiad i'r Gronfa Bensiwn dros y 30 mlynedd ddiwethaf.

Mae 2020 yn flwyddyn heriol i'r Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) ac ein aelodau. Ers Mawrth, yr adran pensiwn wedi bod yn gweithio o gartref ac yn parhau i wneud hynny. Mae hyn yn golygu llawer o newidiadau i'r gronfa pensiwn

Y newid mwyaf amlwg rydych wedi ei weld, mae'n debyg, yw sut rydym yn cyfathrebu gyda chi. Mae fwy neu lai y cyfan o negeseuon y Gronfa nawr yn cael eu hanfon allan yn electronig drwy Fy Mhensiwn Arlein neu drwy ebost. Mae manylion sut i gysylltu â ni i'w gweld ar dudalen olaf eich Cylchlythyr Pensiynwyr. Mae'r gronfa yn parhau i dderbyn ac anfon gwybodaeth drwy'r post, ond efallai y bydd yn cymryd ychydig yn hirach i'n cyrraedd nag a wnaeth yn y gorffennol, ac rydym yn annog holl bensiynwyr i gysylltu â ni drwy ebost neu ar y ffôn os gallwch wneud hynny.

Mae gweithio o'r cartref hefyd wedi rhoi cyfle i ni adolygu sut rydym yn gweithio a chael dulliau gwell o wneud pethau i wella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig i chi, ein pensiynwyr.

Drwy gydol hyn i gyd, ein blaenoriaeth fu sicrhau bod ein pensiynwyr yn cael eu talu, a'n bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth proffesiynol rydych yn ei ddisgwyl gennym. Hoffwn ddiolch i'n pensiynwyr i gyd am eu cefnogaeth parhaus yn ystod y cyfnod hwn.

Os gallwch chi feddwl am unrhyw welliannau i'r gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig i chi, byddem yn croesawu unrhyw adborth gennych.

Rwy'n gobeithio y bydd y cylchlythyr yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol i chi

Dymuniadau Gorau

*Jo Griffiths*



## Diwrnod Taliad—Rhagfyr 2020

**Diwrnod Talu Pensiwn yn Rhagfyr 2020 yn cael ei dalu ar Dydd Iau 31 Rhagfyr 2020.**

# Cynnydd i Bensiynau – 12fed Ebrill 2021

**Cynnydd i Bensiynau – 12fed Ebrill 2021**

Gallaf gadarnhau bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2020 yn 0.5% a bydd eich pensiwn felly'n cynyddu 0.5% ar ddydd Llun 12fed Ebrill 2021.

Os talwyd eich pensiwn i chi am lai na 12 mis efallai y byddwch yn derbyn cyfran o'r cynnydd.

### Slipiau Talu

Byddwn yn postio slip cyflog i chi ym mis Mawrth, Ebrill a Mai 2020 fel y gallwch weld faint mae eich pensiwn eich hun wedi codi. Ni fyddwn yn postio slip cyflog i chi am unrhyw fis arall o'r flwyddyn, oni bai bod swm y pensiwn yr ydym yn ei dalu i chi yn y mis hwnnw'n newid o £5 neu fwy.

### Eich P60 ar gyfer 2019/20

Byddwn hefyd yn anfon P60 atoch gyda slip cyflog Mai 2020. Dyma'ch **cofnod swyddogol** o'r pensiwn a dalwyd i chi yn ystod y flwyddyn, ac unrhyw dreth a dalwyd gennych chi.

**Bydd slip talu mis Mawrth 2020 hefyd yn dangos eich pensiwn a'r dreth a dalwyd yn y flwyddyn dreth 19/20.**

**Os ydych wedi cofrestru i ddefnyddio Fy Mhensiwn ar-lein gallwch argraffu eich slipiau cyflog a'ch P60s eich hun a chofiwch ein bod yn anfon slip cyflog i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein bob mis.**

# Ydych chi'n defnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein?



**A ydych chi wedi cofrestru i ddefnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein eto?** Byddwch yn gallu gweld eich slipiau cyflog ar gyfer bob mis, a'ch P60 blynyddol, drwy eich cyfrif diogel.

Mae'n hawdd iawn cofrestru ar ein gwefan **member.gwentpensionfund.co.uk**.

1. Bydd angen i chi deipio'ch Rhif Yswiriant Cenedlaethol a'ch Cod Post . Wrth wneud hynny bydd y system yn eich adnabod. Os ydych wedi newid eich cyfeiriad a heb ddweud wrthym, bydd angen i chi ddweud wrthym cyn cofrestru.
2. Gofynnir i chi ddewis Enw Defnyddiwr a Chyfrinair ar gyfer eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.
3. Gofynnir i chi nodi rhai cwestiynau diogelwch. Byddwn y defnyddio'r rhain i'ch adnabod os byddwch yn cysylltu â ni neu os oes angen i chi ail-osod eich Cyfrinair yn y dyfodol.

Pan fyddwch wedi cofrestru, byddwn yn eich ebostio i ddweud wrthych am ein galw a chael eich Rhif Adnabod Personol (PIN).

Yna fe fydd yn gofyn i chi deipio'r rhif PIN yr ydym wedi ei anfon atoch.

Peidiwch â phoeni os na fedrwch fynd ar y ryngrwyd neu os nad ydych am ddefnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein. Byddwn yn parhau i anfon slipiau cyflog atoch drwy'r post ym mis Mawrth, Ebrill a Mai ac os bydd y pensiwn rydym yn ei dalu i chi yn newid o £5 neu fwy.


**Dydy Fy Mhensiwn Ar-lein ddim ar gael I gynghorwyr neu athrawon**



# cadw mewn cysylltiad

## Symud Cartref?

Bob blwyddyn, rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau nad ydym yn colli cysylltiad gyda'n haelodau. Rydym yn gwybod bod symud tŷ yn gyfnod prysur ac felly nid yw'n syndod bod pobl weithiau yn anghofio dweud wrthym eu bod wedi symud.




Felly, cofiwch ein rhoi ar eich rhestr o bethau i'w gwneud i'n hysbysu o'ch cyfeiriad newydd drwy ebost, llythyr neu dros y ffôn. Mae ein manylion cyswllt ar y Calendr Dyddiau Talu Pensiwn 2021.

Os byddwn yn anfon llythyr at aelod ac os yw'n cael ei ddychwelyd i ni wedi ei farcio 'Ddim yn y Cyfeiriad hwn' neu 'Dychwelwch at yr Anfonwr' yna bydd yn rhai i ni atal taliadau pensiwn nes byddwn yn clywed gennych.

Rydym yn gwneud hyn i'ch diogelu chi a gwneud yn siŵr nad yw eich gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad anghywir, gan eich rhoi mewn perygl o ladrad hunaniaeth.



## Newid eich Manylion Banc

Wrth newid eich manylion banc, bydd angen i chi lenwi **'Ffurflen Cyfrif Banc'.** Mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan dan yr adran **Ffurflenni a Chyhoeddiadau** neu dywedwch wrthym eich bod eisiau ffurflen drwy'r post.

Gallwn ond dalu eich pensiwn i gyfrif yn eich henw chi neu gyfrif ar y cyd gyda'ch enw chi arno. Os byddwch yn newid yr enw ar y cyfrif, dylech hefyd adael i ni wybod i wneud yn siŵr nad oes problem wrth dalu eich pensiwn.

Dylech fod yn ymwybodol na fydd unrhyw newidiadau a wneir ar ôl i ni redeg ein cyflogres pensiynwyr yn dod i rym tan y mis canlynol. Byddwn bob amser yn dweud wrthych os na fydd y newid yn dod i rym tan ar ôl eich taliad pensiwn nesaf.

## Rhoi eich cyfeiriad e-bost diweddaraf




Oherwydd y Pandemig Coronafeirws, mae'n bwysicach nag erioed eich bod yn gwneud yn siŵr bod eich cyfeiriad ebost cywir gennym.

Os yw'n well gennych i ni gysylltu â chi trwy e-bost rydym bob amser yn hapus i wneud hynny. Mae'n bwysig iawn eich bod yn sicrhau eich bod yn rhoi'r cyfeiriad e-bost diweddaraf inni. Os byddwch chi'n newid eich cyfeiriad e-bost cofiwch roi gwybod i ni fel y gallwn ni ddal ati i gysylltu â chi.

## Byw Dramor

### Archwiliadau Ardystio Bywyd

I bensiynwyr sy'n byw y tu allan i'r DU, rydym fel rheol yn ymgymryd ag archwiliad rheolaidd o'r enw 'Ardystio Bywyd'. Mae hyn er mwyn diweddaru ein cofnodion ac rydym yn gofyn i chi wneud hyn drwy fynd â thystiolaeth ffotograffig i'ch cangen leol o Western Union.
Rydym yn gobeithio eich bod yn deall, er mwyn cadw ein pensiynwyr sy'n byw dramor yn ddiogel yn ystod y pandemig Coronafeirws, ein bod wedi atal ein harchwiliadau ardystio bywyd eleni.
Rydym yn gobeithio ail-afael yn ein harchwiliadau Ardystio Bywyd unwaith eto yn 2021. Cofiwch, os ydych yn byw dramor ond yn defnyddio cyfeiriad post DU ar gyfer eich gohebiaeth, bydd angen i ni ymgymryd ag archwiliad Ardystio Bywyd arnoch o hyd

### Dweud wrthym eich bod yn symud dramor?

Os byddwch yn symud dramor, rydym yn gwybod y bydd yn amser prysur i chi, gyda llawer i'w wneud! Fodd bynnag, i wneud yn siŵr nad yw eich taliadau pensiwn yn cael eu heffeithio, mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym eich bod yn symud dramor.



Gallwn gymryd eich cyfeiriad newydd dros y ffôn neu drwy ebost ac os oes angen i chi newid eich taliadau pensiwn i gyfrif banc tramor, byddwn yn anfon Ffurflen Cyfrif Banc Tramor atoch er mwyn gallu trefnu hyn.

Rydym yn defnyddio Western Union i dalu ein pensiynwyr tramor, ac mae ein pensiynwyr yn gweld bod hyn yn hawdd iawn.

## Newidiadau yn y Slipiau Cyflog a Thystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60

Byddwn yn diweddaru dyluniad a chynllun ein slipiau cyflog a'r tystysgrifau P60 diwedd y flwyddyn yn ystod 2021.

**Beth fydd yn newid?**

**Slipiau Cyflog**

Byddwn yn gwneud newidiadau i gynllun a dyluniad ein slipiau cyflog ar gyfer pensiynwyr. Mae'n debyg na fyddwch yn sylwi ar y newidiadau a wneir i'ch slip cyflog.

**Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60**

Bob blwyddyn, rydym yn anfon Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60 at ein pensiynwyr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Dyma eich datganiad yn profi'r trethi rydych wedi eu talu ac mae'n bwysig eich bod yn ei chadw. Bydd y Tystysgrifau P60 yn cael eu hail-ddylunio a byddant yn edrych yn wahanol i'r rhai presennol. Roeddem yn meddwl bod hwn yn gyfle delfrydol i symleiddio'r dyluniad i'w wneud yn haws i chi ei ddeall a chael hyd i'r wybodaeth rydych ei hangen arnynt.

**Pam newid?**

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) wedi dweud wrthym eu bod wedi dileu'r cyfleustra i ni archebu ffurflenni gwag P60 ganddynt. Rydym yn defnyddio'r rhain i anfon Tystysgrifau P60 at bob un o'n pensiynwyr bob blwyddyn. Felly, rydym wedi gorfod creu ffurflen P60 newydd gyda'r darparwr Meddalwedd Cyflogres i ddisodli'r tystysgrif P60 gan CThEM.

Byddwch yn sylwi bod eich tystysgrif P60 yn edrych yn wahanol y flwyddyn nesaf.



# Cwestiynau am y dreth yr ydym yn ei chymryd o'ch pensiwn?

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn dweud wrthym ba god treth i ddefnyddio ar gyfer eich pensiwn. Os byddant yn newid eich cod treth, byddant yn dweud wrthym ba god treth newydd i'w ddefnyddio.




Os bydd eich cod treth yn newid, yna yn anffodus ni allwn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Y rheswm am hyn yw nad yw CThEM yn dweud wrthym pam eu bod wedi newid cod treth neu sut maent wedi ei gyfrifo. Maen nhw'n dweud wrthym fod rhaid inni ei gymhwyso, a hynny'n unig.

Ni allwn newid y cod treth yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer eich pensiwn oni bai bod CThEM yn dweud wrthym i wneud hynny.

Os oes gennych gwestiwn am eich cod treth eich hun, bydd angen i chi fynd ati eich hun i gysylltu â HMRC.

**Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cod treth cywir yn cael ei gymhwyso i'ch pensiwn**

Gallwch weld manylion cyswllt HMRC ar Galendr Dyddiadau Talu Pensiwn 2020 ar gefn Llais Gwent.

Os byddwch chi'n cysylltu â HMRC am y dreth y maent yn ei ddweud wrthym am ei chymryd o'ch pensiwn, bydd angen i chi roi eich Rhif Yswiriant Gwladol a dyfynnu'r **Cyfeirnod PAYE 948/T440N**.

# Manylion Cyswllt Penodol i Bensiynwyr Newydd

Yn ystod 2020 a'r Pandemig Coronafeirws, rydym wedi gorfod gwneud llawer o newidiadau i'n prosesau i sicrhau eu bod yn dal i weithio gyda'n staff yn gweithio o'u cartrefi a'r swyddfa ar gau.

Mae hyn wedi cynyddu'r defnydd o gyfathrebu electronig. Peidiwch â phoeni – rydym yn deall y bydd yn well gan rai ohonoch anfon llythyr atom drwy'r post a siarad gyda ni ar y ffôn, ond i'r sawl ohonoch sy'n well gennych ddelio â ni drwy gyfathrebu'n electronig, rydym wedi gwneud hyn yn haws i chi.

Mae gennym nawr gyfeiriad ebost a rhif ffôn penodol i chi gysylltu â'r tîm cyflogres. Mae'r cyfeiriad ebost a'r rhif ffôn newydd isod, neu ar eich Calendr Dyddiadau Talu Pensiwn 2021 ar gefn eich Cylchlythyr Pensiynwyr Gwent.

**Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) , Cyngor Bwrdeistref Sirol, Pont-y-Pwl, Torfaen, NP4 6YB**

**01633 647799**

**pensions.payroll@torfaen.gov.uk**

# Y Fenter Twyll Genedlaethol (FTG)

Mae dyletswydd ar Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) i ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddwn. Gall yr Cronfa Bensiwn rannu gwybodaeth a roddir yn blaenorol â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll.

Mae'r FTG yn gweithredu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i warchod y pwrs cyhoeddus trwy gyfateb data ar draws sefydliadau sector cyhoeddus, i atal a chanfod twyll.

Mae FTG yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac mae'n ofynnol inni ddarparu gwybodaeth am aelodau sy'n bensiynwyr i Swyddfa Archwilio Cymru i gyfateb data.

Mae'r FTG yn gweithredu o dan y ***'Cod Ymarfer Paru Data'*** Gallwch ddarlien mwy o wybodaeth am baru data, a lawr lwytho'r Cod, ar dudalen gwefan Swyddfa Archwilio Cymru, ar: **https://www.audit.wales/our-work/national fraud-initiative**

# Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

# Diwrnodau Talu Pensiwn 2021

Diwrnod Talu'ch Pensiwn yw **diwrnod gwaith olaf y mis**, sy'n ymddangos yn felyn ar y calendr.

### Ionawr

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | **29** | 30 | 31 |

### Chwefror

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | **26** | 27 | 28 |

### Mawrth

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | **31** | | | | |

### Ebrill

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | **30** | | |

### Mai

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | **28** | 29 | 30 |
| 31 | | | | | | |

### Mehefin

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | **30** | | | | |

### Gorffennaf

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | **30** | 31 | |

### Awst

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 |
| 30 | **31** | | | | | |

### Medi

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | **30** | | | |

### Hydref

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | **29** | 30 | 31 |

### Tachwedd

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | **30** | | | | | |

### Rhagfyr

| M | T | W | T | F | S | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | **31** | | |

**Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) , Cyngor Bwrdeistref Sirol, Pont-y-Pwl, Torfaen, NP4 6YB**

01633 647799

pensions.payroll@torfaen.gov.uk

**Fy Mhensiwn Ar-lein**

**Cofrestrwch Nawr!**



member.gwentpensionfund.co.uk

**Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**
**Ty Glas, Llanisien,**
**Caerdydd, CF14 5FN**

**Cyfeirnod PAYE**
**948/T440N**

0300 2003300